Care & Repair Cymru

Adroddiad Blynyddol 2008 / 2009



Care & Repair Cymru

Cefnogwr Tai Pobl Hŷn

Swyddfa Genedlaethol
Ty Norbury, Heol Norbury, Tyllgoed,
Caerdydd, CF5 3AS
Ffon 029 2057 6286
Ffacs 029 2057 6283

Swyddfa Gogledd Cymru
Plas Menai, Penmaenmawr Road, Llanfairfechan,
Conwy, LL33 0PE
Ffon 01248 689240
Ffacs 01248 689241

Ebost enquiries@careand repair.org.uk
Safle www.careandrepair.org.uk

Asiantaethau Care & Repair Cymru
Blaenau Gwent
Pen Y Bont Ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Sir Gaerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir Fflint
Gwynedd
Merthur
Sir Fynwy
Castell Nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam
Ynys Môn

INVESTOR IN PEOPLE

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

Cymdeithas Ddwiwydiannol a Darbodus gyda statws elusen Rhif cofrestredig 27363R

Cyflwyniad Y Cadeirydd A'R Prif Weithredwr

Margaret Hands Cadeirydd, MBE

Rydym yn falch o gydnabod llwyddiant Care & Repair Cymru wrth gyrraedd llawer o'i amcanion allweddol ar gyfer 2008/09, er ein bod wedi wynebu blwyddyn heriol pan dynnwyd nifer o staff pwysig i ffwrdd o'u gwaith beunyddiol. Ein blaenoriaeth oedd gwella gwasanaethau ar gyfer Asiantaethau ac ad-drefnu'r strwythur corfforaethol er mwyn gwireddu hynny.

Roedd y cynllun blynyddol a'r dulliau strategol wedi canolbwyntio ar foderneiddio gwasanaethau ar gyfer Asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol; a datblygu strwythurau grwpiau cyfoedion cryf, gan adlewyrchu mudiad sy'n aeddfedu.

Fel yn y gorffennol, datblygu polisïau a chynnal partneriaethau cenedlaethol oedd prif ffocws gwaith Care & Repair Cymru. Parhaodd hynny gydol y flwyddyn, gan yrru nifer o ddatblygiadau allweddol yn eu blaen ar lefel strategol genedlaethol. Yn eu plith oedd secondio'r prif weithredwr i Lywodraeth y Cynulliad ym Medi 2008 er mwyn llunio strategaeth tai ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio. Yn ogystal, penodwyd Wendy yn gadeirydd Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn yn Ionawr 2009.

Dros y flwyddyn rhoddwyd cyngor rheolaidd i Lywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad â:

- anghenion tai pobl hyn
- cyfrannu at ddatblygiad cynllun dementia
- cyfrannu at fwrdd ymgynghorol Talu am Ofal
- cynrychiolaeth i'r pwyllgor cyfleoedd cyfartal
- a datblygu peilot 'Ysbyty i'r cartref'.

Wrth weithio ym maes tai pobl hŷn ar draws y sbectrwm Cymreig a chodi'r proffil gwleidyddol, llywiwyd gwaith polisi drwy ein cynhadledd genedlaethol, mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol a llawer o gynadleddau a digwyddiadau eraill. Yn ogystal, trefnwyd cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn a chyfrannwyd at Gynghrair Henoed Cymru, Fforwm Tai Cymru, Grŵp Tlodi Tanwydd Ymgynghorol a Grŵp Ymgynghorol HEES.

Roedd angen ad-drefnu'r strwythur corfforaethol er mwyn ymateb i'r agenda moderneiddio.

Mae'r Adran Perfformiad & Cyllid wedi gyrru newid wrth symud o roi cymorth ffurfiol i Asiantaethau i ddarparu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth o safon. Canolbwyntiwyd ar gydweithio mewn partneriaeth er nwyn datblygu fframwaith mwy effeithiol ar gyfer materion perfformiad a chyllid Llywodraeth y Cynulliad. Datblygwyd gweledigaeth ddynamig i ddarparu deunydd gwybodaeth fydd yn cysylltu data perfformiad a pholisïau cenedlaethol.

Cyflwyniad Y Cadeirydd A'R Prif Weithredwr parhad

Dysgwyd llawer wrth ddarparu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer Gofal a Thrwsio Conwy a Sir y Fflint, gyda'r adran Gwasanaethau Asiantaethau yn datblygu gwasanaeth cymorth ymarferol gyda'r nod o alluogi Asiantaethau a'u partneriaid i wella gwasanaethau yn eu hardaloedd. Mae datblygu deunyddiau gwybodaeth, gwefan ryngweithiol, bwletinau newyddion a fframweithiau arferion da wedi helpu i greu gwasanaeth arloesol a phro-actif. Ac mae lansio cronfa ddata newydd CARIS wedi helpu i ddarparu pecyn yn diwallu gofynion cenedlaethol a lleol.

Yr adran Digwyddiadau Allanol yw'r brif adran yn cysylltu â'r byd tu allan, gan sicrhau ein bod yn gwrando ar ein cwsmeriaid a dosbarthu gwybodaeth i Asiantaethau, partneriaid, pobl hyn, y cyfryngau, gwleidyddion a chomisiynwyr gwaîth. Llwyddwyd i wella hyfforddiant, datblygu rhwydweithiau dysgu a gwella (LINs), a digwyddiadau cenedlaethol drwy gyfrwng cyfres o ymholiadau ac arolygon barn gyda'r nod o roi cwsmeriaid yn gyntaf. Mae hynny wedi arwain y mudiad wrth wella mynediad, gwybodaeth, ein delwedd genedlaethol a chodi proffil y gwasanaeth.

Mewn byd ansicr ac wrth wynebu nifer o heriau, byddwn yn glynu at egwyddorion rheoli da. Yn ôl ei arfer, gweithiodd y Bwrdd yn galed, gan fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun blynyddol a sicrhau bod Care & Repair Cymru yn diwallu ei gyfrifoldebau llywodraethu. Dechreuwyd ar broses o ddiwygio a darparu hyfforddiant fydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu dilyn yr arferion gorau ym mhob maes. Yn ogystal, mae wedi cynnal ei gyfrifoldebau i gyllidwyr a phartneriaid, yn benodol Llywodraeth y Cynulliad ym maes rheoli ariannol, archwilio mewnol ac asesu risgiau.

Eleni, cofnodwyd gwarged ariannol sylweddol a byddwn yn buddsoddi rhan helaeth ohono yn ein gwasanaethau dros y flwyddyn nesaf. Wrth edrych ymlaen at 2009/10, bydd rhaid ystyried yr hinsawdd ariannol anodd a'r effeithiau ar fywydau pobl hŷn, a chynaladwyedd y corff yn y dyfodol. Ein blaenoriaeth fydd arwain y mudiad a sicrhau ein bod yn barod i ymateb i agenda cyfnewidiol cymdeithas sy'n heneiddio, ynghyd â thaclo'r pwysau cynyddol ar adnoddau ariannol a gwasanaethau.

Ar bob amser, byddwn yn ceisio cynnal elfennau gorau'r gorffennol er mwyn helpu'r mudiad i ymateb i heriau ac osgoi problemau ar gymal nesaf ein taith.

Rydym yn cydnabod na fyddai ein gwaith wedi bod yn bosibl heb gymorth ein cyllidwyr, yn arbennig Llywodraeth y Cynulliad.

Yn olaf, diolch i'r staff ac aelodau'r Bwrdd am eu cyngor a chymorth yn ystod y flwyddyn, ac am eu gwaith ffyddlon ar ran mudiad Gofal a Thrwsio.

Wendy Bourton OBE Prif Weithredwr

Blwyddyn O Lwyddiant

✔ BRAND CENEDLAETHOL

Yn ystod 2008/09 cyflwynodd Care & Repair Cymru ddelwedd gorfforaethol newydd i'w rhannu gyda phob Asiantaeth, yn cynnwys y neges 'Cefnogwr Tai Pobl Hŷn'. Lansiwyd y brand gan Gwenda Thomas AC wrth agor arddangosfa'r mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Awst. Erbyn hyn, gwelir y logo ar holl bapur ysgrifennu ac arwyddion Asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Care & Repair Cymru

✔ Cronfa ddata newydd / SUG

Ar ôl derbyn cyllid o £80,500 gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2008/09, datblygwyd cronfa ddata monitro cenedlaethol (CARIS) ar gyfer mudiad Gofal a Thrwsio. Paratowyd gan DRAIG Technology Ltd mewn ymateb i ofynion y mudiad, gan brofi'r system a darparu hyfforddiant mewnol cyn ei lansio. Bydd y system newydd yn gallu ymateb i anghenion cynyddol gwasanaethau Gofal a Thrwsio o ran monitro perfformiad a rheoli achosion. Pan fydd yn gweithredu'n llawn erbyn canol 2009 bydd y system (seiliedig ar y rhyngrwyd) yn darparu:-

- Rhyngwyneb hwylusach ar gyfer defnyddwyr na hen system CMS
- Hyblygrwydd i addasu'r system at ddibenion adrodd cenedlaethol a lleol
- Datblygu rhyngwyneb Cymraeg
- Adnoddau i atodi nodiadau, cynlluniau, darluniau a deunydd gweledol arall
- Potensial i ddatblygu adroddiadau cenedlaethol ar sail data lleol.

✔ Newid radical

Yr adran Perfformiad & Cyllid Asiantaethau sydd wedi llywio'r newidiadau, gan ddarparu gwasanaeth annibynnol er hwyluso penderfyniadau buddsoddi a monitro perfformiad Asiantaethau. Mae wedi arwain y symud i ffwrdd o wasanaethau cymorth hen ffasiwn i gysylltiad mwy tebyg i wasanaeth grŵp cyfoedion. Wrth weithio fel dolen gyswllt rhwng Llywodraeth y Cynulliad, yr Asiantaethau, polisïau cenedlaethol ac adrannau eraill Care & Repair Cymru, mae wedi datblygu'r weledigaeth a'r potensial i yrru gwasanaethau effeithiol, yn fewnol ac allanol.

✔ Perfformiad Asiantaethau

Ar bob amser byddwn yn ceisio llywio arian i'r mannau pwysicaf; wrth ddarparu gwasanaethau o safon ar gyfer pobl hŷn drwy Gymru. Gwneir hynny wrth reoli prosesau allweddol er cynnal ffynonellau cyllid cenedlaethol. Derbyniodd gwasanaethau Gofal a Thrwsio gyllid craidd o £4.5 miliwn yn 2008/9 a £2.1 miliwn ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP).

Blwyddyn O Lwyddiant parhad

NIFER Y BOBL HELPWYD - 49,633



NIFER Y BOBL HELPWYD - 49,633



NEWYDDION DA:

Incwm budd-daliadau ychwanegol	**£3,929,831**
Cyllid elusennol	**£549,136**
Incwm preifat i dalu am waith	**£383,252**

- 7,118 person wedi dweud eu bod wedi gallu aros yn eu cartrefi gyda chymorth Gofal a Thrwsio

> Mae'r amcanion yn glir…cydweithio mewn partneriaeth ag Asiantaethau aeddfed er sicrhau bydd yr arian yn cyrraedd gwasanaethau llinell flaen, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n iawn er lles pobl hŷn. **Vidhya Ragunathan, gweinyddwr cyllid asiantaethau**

✔ Canllaw Llywodraethu Da

Lansiwyd y Canllaw Llywodraethu Da yn Ebrill 2009, gyda chymorth nawdd gan Grŵp Tai Cynon Taf. Mae'n cyfuno egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus safonol gyda'r safonau llywodraethu sector gwirfoddol diweddaraf, yn cynnwys llawer o ddogfennau allweddol ac yn cyfeirio at nifer o ddogfennau model safonol. Bydd yr holiadur gwirio iechyd llywodraethol yn ceisio cynnal safonau gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, o dan amryw fodelau corfforaethol, wrth gyflwyno model llywodraethu cyson a heriol.

✔ Project Ysbyty i'r Cartref

Yn 2008 derbyniodd Care & Repair Cymru gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu pecyn gwybodaeth ar gyfer pobl hŷn yn gadael ysbytai.

Trefnwyd cynlluniau peilot yn ardaloedd Caerffili a Chonwy ers Hydref 2008 er mwyn rhoi gwybodaeth am wasanaethau cymorth a help i bobl hŷn ystyried yr opsiynau'n agored iddynt cyn gadael ysbyty, pan fyddant yn gallu teimlo'n fregus ac ansicr iawn. Y bwriad oedd ystyried opsiynau cleientau cyn gynted â phosibl, gyda gweithiwr achosion Gofal a Thrwsio yn ymweld â chleientau yn yr ysbyty. Bydd datblygu cysylltiad ar lefel wardiau â'r holl staff a gweithwyr proffesiynol yn rhan o'r broses o ryddhau cleifion yn sicrhau bod popeth yn ei le erbyn y dyddiad dychwelyd adref, gan osgoi unrhyw oedi.

Yn 2009 bydd Care & Repair Cymru yn gwerthuso'r project gyda'r nod o gynnig y fath wasanaeth ar draws y wlad.

✔ Comisiynydd Pobl Hŷn

Yn dilyn penodiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn Ebrill 2008, mae Care & Repair Cymru wedi datblygu perthynas waith agos gyda'r Comisiynydd a'i swyddfa, er lles pobl hŷn drwy'r wlad.

Gyda phobl hŷn yn poeni'n gynyddol am filiau tanwydd, mae Care & Repair Cymru wedi datblygu partneriaeth gref gyda swyddfa'r Comisiynydd er mwyn trefnu cymorth sylweddol ar gyfer pobl hŷn. Yn ystod Chwefror a Mawrth 2009, cydlynodd ymdrechion Asiantaethau i ddosbarthu 13,500 llythyr i gleientau gan y Comisiynydd, yn tynnu sylw at gyngor annibynnol llinell gymorth Homeheat. Yn ôl y corff cenedlaethol yma, er bod Cymru yn cynrychioli dim ond 5% o'i broffil poblogaeth mae'n gallu cynhyrchu 20% o'i ymholiadau. Mae'r bartneriaeth wedi profi'n llwyddiant ymarferol, fel y dywedodd un cwsmer hapus.

> "Rwyf wedi gostwng fy mil misol o £90 i £77 diolch i chi a Gofal a Thrwsio."

Blwyddyn O Lwyddiant parhad

✔ Eisteddfod Genedlaethol

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol eleni yng Nghaerdydd, gyda dros 1,500 yn ymweld â stondin Care & Repair Cymru. Roedd yn cynnwys 'lolfa' yn adlewyrchu nifer o beryglon sy'n gallu codi mewn cartrefi. Dosbarthwyd llawer o fylbiau ynni isel ac unedau diffodd pŵer ar y stondin, gan ddenu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd.

✔ Cynhadledd

Teitl cynhadledd eleni oedd 'Cefnogwyr, Comisiynwyr a Gofal a Thrwsio' a dathlodd waith cefnogwyr o fewn sectorau tai, iechyd, gofal cymdeithasol a sectorau cysylltiedig yng Nghymru. Denwyd cynrychiolwyr o Asiantaethau Gofal a Thrwsio, partneriaid allweddol a grwpiau cysylltiedig.

Trefnwyd nifer o siaradwyr adnabyddus, yn cynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Datblygiad Cynaladwy a chynrychiolydd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Agorwyd y gynhadledd gydag araith allweddol gan y dirprwy weinidog tai Jocelyn Davies AC. Siaradodd am yr heriau a'r amgylchiadau'n wynebu sector tai Cymru, ynghyd â chefnogaeth gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad o waith mudiad Gofal a Thrwsio.

Gwella Cyfathrebu

✔ Strategaeth gyfathrebu

Mae datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol wedi helpu cwsmeriaid i gysylltu â'n gwasanaethau a byddwn yn bachu ar bob cyfle i ddosbarthu gwybodaeth a hyrwyddo gwaith y mudiad. Adolygwyd ein cynllun iaith Gymraeg, datblygwyd adnoddau fideo gynadledda a threfnwyd hyfforddiant a digwyddiadau dysgu a gwella er mwyn gwneud ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb a chyrraedd safonau cynaladwy. Bydd yr ebost beunyddiol yn cydlynu cyfathrebu wrth nodi pwyntiau "Er gwybodaeth" ac "Argymell gweithredu". Mae hynny wedi profi'n ddefnyddiol i Asiantaethau prysur wrth ddarparu gwybodaeth mewn fformat cryno a chlir sy'n osgoi dryswch.

> "Yn fy marn i, mae'n beth da i Care & Repair Cymru ac i mi fy mod yn gallu siarad Cymraeg o'r swyddfa genedlaethol gyda'n partneriaid ar draws y wlad. Rwy'n sicr ein bod yn elwa o wneud hynny ac mae'n ffordd well o drin ein cwsmeriaid."
>
> **Gwenan Jones, gweinyddwraig**

✔ Gwefan

Datblygwyd y wefan o hafan un dudalen i fod yn arf cyfathrebu rhyngweithiol, aml-haen. Byddwn yn postio dogfennau allweddol a linciau defnyddiol, gan ddatblygu fforymau grwpiau cyfoedion a monitro gweithgaredd ar y safle yn rheolaidd.

✔ Hyfforddiant Asiantaethau

Ar sail arolwg anghenion hyfforddiant cenedlaethol a chysylltiadau rheolaidd â'r mudiad, darparwyd rhaglen hyfforddiant effeithiol gydol y flwyddyn. Trefnwyd 15 cwrs arbenigol gyda hyfforddwyr proffesiynol ar gyfer 162 cynrychiolydd, gan ddarparu achrediadau mewn rhai meysydd penodol. Cysylltwyd â darparwyr allanol o safon ar gyfer cyrsiau HHSRS (Housing Health & Safety Rating System), rheoliadau adeiladu a dementia.

Yn ogystal, trefnwyd pum cwrs undydd ar gronfa ddata newydd CARIS, ar ffurf cymorth cost effeithiol i hwyluso'r trosiad i'r system newydd. Aeth dau gynrychiolydd o bob Asiantaeth i'r cyrsiau, yn cyfateb i 220 diwrnod o amser staff Asiantaethau a datblygu arbenigedd mewnol wrth wneud hynny.

> "Bydd fy nhîm yn gosod safonau uchel ac mae'n debyg yn gwneud gwaith da. Pan ddechreuais roeddem yn 'swyddfa genedlaethol' ond erbyn hyn rwy'n credu ein bod yn dod yn 'darparwr gwasanaeth cenedlaethol', gyda chysylltiadau gwell ar draws y wlad."
>
> **Carys Welsh, gweinyddwr materion allanol**

Gwella Cyfathrebu parhad

✔ Polisi

Ar wahân i'r llwyddiannau a nodwyd yn y rhagair, mae gwaith tîm Care & Repair Cymru wedi cynnwys:

- Rhwydwaith ymchwil clefydau niwroddirywiol
- Gweithgor strategaeth tai
- Tystiolaeth i'r pwyllgor cyfleoedd cyfartal
- OPAN - rhwydwaith ymgynghorol pobl hyn
- Cynllun dementia Cymru - Grŵp tasg a gorffen
- Talu am ofal yng Nghymru - grŵp rhanddeiliaid ymgynghorol
- Cyflwyniad - cynhadledd Cymorth Cymru
- Cyflwyniad - cynhadledd Help the Aged
- Annerch digwyddiadau Asiantaethau drwy Gymru.

Yn ogystal, penodwyd swyddog gwybodaeth yn yr adran Perfformiad & Cyllid Asiantaethau er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid. Bydd yn paratoi dogfennau polisi ac yn drafftio ymateb i ymgynghoriadau, ac yn edrych i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng strategaethau cenedlaethol a barn pobl hŷn. Mae'r rôl wedi darparu linc bwysig rhwng polisïau cenedlaethol a mudiad Gofal a Thrwsio yn gyffredinol.

Ar ben hynny, cydweithiwyd â Chynghrair Henoed Cymru a Grŵp Ymgynghorol HEES, gyda Care & Repair Cymru yn cadeirio'r ail un. Ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad Polisi Tai Cenedlaethol,

> "Byddwn yn gwireddu amcanion y corff wrth gael y gorau allan o'n staff. Rwyf wedi mwynhau'r cyfle i symud o'r 'Derbynfa' i fod yn swyddog hysbysu polisïau sy'n cynnig ffordd well o gyfrannu ac yn gwneud defnydd da o'm sgiliau"
>
> **Hugh Holiday, swyddog gwybodaeth**

cydweithiwyd â Fforwm Tai Cymru, sydd wedi newid ei enw i Cartrefi i Bawb Cymru er mwyn tanlinellu'r cyfleoedd polisi ar agenda gwleidyddol Cymru.

Wrth wneud y gwaith yma, llwyddwyd i leisio barn pobl hŷn ar draws y wlad er mwyn hysbysu a siapio strategaethau cenedlaethol, a darparu cyfleoedd i wella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl hŷn drwy Gymru.

Er enghraifft, gwaith ar ein dogfen ar gyfer y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, yn adlewyrchu ein hymrwymiad i geisio sicrhau bydd pobl hŷn yn derbyn Grantiau Cyfleusterau Anabl, a gwaith cynnal a chadw ac addasu ehangach.

Gwrando Ar Ein Cwsmeriaid

✔ Mynegi eich barn

Holodd project 'Mynegi eich barn' 2,152 person am eu sylwadau ar faterion tai sy'n effeithio pobl hŷn. Cwblhawyd yn 2007/08 a chyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg i Gwenda Thomas AC yn ystod agoriad ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Awst 2008. Datgelodd mai blaenoriaeth pobl hŷn yw parhau i fyw'n gyffyrddus a diogel yn eu cartrefi eu hunain.

✔ Grwpiau tasg a gorffen

Sefydlwyd grwpiau tasg a gorffen er mwyn elwa o brofiad y prif swyddogion, wedi darparu fframwaith aeddfed i gefnogi Asiantaethau. Cydnabuwyd cryfder SUG yng nghyd-destun datblygu CARIS wrth sefydlu grŵp tasg a gorffen o saith Asiantaeth i adolygu ceisiadau am gyllid i Lywodraeth y Cynulliad a fframwaith monitro perfformiad Asiantaethau.

Gweithiodd y grŵp dros y chwe mis diwethaf i lunio cynigion i wella'r cais am gyllid a'r fframwaith monitro. Adolygodd yr ymateb i fframwaith cyllid 2009/10 ac awgrymodd syniadau i adolygu'r fframwaith monitro er mwyn adlewyrchu'r newid o adrodd ar sail data i drefn yn seiliedig ar ganlyniadau. Croesawodd y mudiad y cyfle i gydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad er mwyn llunio dull mwy modern o fonitro perfformiad a chyfrifoldebau gwasanaeth aeddfed. Byddwn yn edrych am ganiatâd i gyflwyno gwelliannau yn ystod 2009/10.

> "Pan adewais i gael babi, roedd Care & Repair Cymru yn cyflawni llawer ond nid oedd ei amcanion yn hollol glir. Ers dychwelyd, mae'n dda bod yn rhan o adran sy'n diffinio amcanion personol a chorfforaethol, ac yn anelu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel er gyfer ein cwsmeriaid"
>
> **Rachel Gingell, swyddog polisi ac ymchwil**

✔ Rhwydweithiau grwpiau cyfoedion asiantaethau

Yn ystod 2008/9 gweithiwyd yn galed i sicrhau bod rhwydweithiau Dysgu a Gwella grwpiau cyfoedion yn cyfarfod i drafod materion allweddol a rhannu arferion da. Cynhaliwyd 21 cyfarfod rhwydwaith Asiantaethau yn 2008/09, yn cynnwys 317 cynrychiolydd o grwpiau prif swyddogion, gweithwyr achosion, swyddogion technegol, crefftwyr, gweinyddwyr ac aelodau bwrdd. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y posibilrwydd o'u cefnogi gyda fforymau ar-lein. Llwyddwyd i drefnu siaradwyr allanol o safon ar gyfer llawer o'r grwpiau hyn.

✔ Arolwg boddhad cwsmeriaid

Ym Medi 2008, am yr ail flwyddyn yn olynol cynhaliwyd arolwg boddhad cwsmeriaid wrth holi pob Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Cafwyd canlyniadau calonogol, gyda 76% o Asiantaethau yn nodi bod gwasanaeth Care & Repair Cymru wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelwyd gwelliant ym mhob maes gwasanaeth, gyda "gwelliant sylweddol" ym meysydd hysbysu polisïau a chyfathrebu gydag Asiantaethau. Mae defnydd o'r cynllun Cymraeg wedi "gwella'n sylweddol" a hyfforddiant a chymorth technegol ar gyfer Asiantaethau yn "gwella o flwyddyn i flwyddyn".

Gwelliant Parhaus

✔ Cyngor & cyfarwyddyd

Er mwyn sicrhau bydd ein mudiad yn meddu ar yr arfau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau safon uchel drwy Gymru, bydd Care & Care Cymru yn defnyddio amryw ddulliau cyfathrebu, megis:

- bwletinau
- e-ddogfennau
- pecyn gwybodaeth misol
- dogfennau polisi

✔ Canllaw arferion da

Adolygwyd y canllaw arferion da yn ystod 2008/9, gan ddiweddaru'r fframwaith i ddarparu gwasanaethau safonol o ansawdd uchel. Drafftiwyd canllaw rhyngweithiol gyda diwyg newydd i hwyluso defnydd ac ar hyn o bryd mae'n cael ei asesu gan grwpiau cyfoedion. Byddwn yn lansio'r canllaw newydd ym mis Gorffennaf 2009, gyda chymorth nawdd gan Gymdeithas Tai Eryri.

✔ Buddsoddwyr mewn Pobl

Fel aelod o raglen Buddsoddwyr mewn Pobl (Investors in People - IIP), mae Care & Repair Cymru newydd gwblhau adolygiad tair blynedd er mwyn asesu strategaethau rheoli a'u dilysrwydd o ran dilyn egwyddorion y cynllun.

Ein swyddog adnoddau dynol a gynrychiolodd y tîm rheoli wrth gydweithio ag aseswyr y Rhaglen mewn proses oedd yn cynnwys pob aelod staff.

Y canlyniadau cyffredinol oedd bod egwyddor o welliant parhaus ar bob lefel reoli, yn cynnwys:

- Didwylledd
- Dirprwyo cyfrifoldeb
- Cyfathrebu effeithiol
- Strategaethau dysgu a datblygu cadarn

Roedd crynodeb yr archwiliwr o fewn adroddiad IIP wedi nodi sylwadau staff ar ymdrechion rheolwyr i'w:

- 'cynnwys o fewn prosesau cynllunio a chymryd penderfyniadau'; a datblygu
- 'dulliau cydweithredol, cefnogol a gweithio mewn timau'

Ystyriwyd bod yr uchod yn gymwys o fewn Care & Repair Cymru ac yn ein cysylltiadau â'r 22 Asiantaeth yng Nghymru.

✔ Grŵp uwch ddefnyddwyr staff asiantaethau (SUG)

Sefydlwyd grŵp uwch ddefnyddwyr o staff Asiantaethau er mwyn cynghori ar waith rheoli cronfa ddata newydd CARIS. Trefnwyd y grŵp gan Care & Repair Cymru er mwyn defnyddio profiad a sgiliau Asiantaethau lleol i siapio anghenion, blaenoriaethu gofynion datblygu, taclo problemau a chynnal peilot o'r system newydd. Erbyn hyn mae'r grŵp wedi aeddfedu fel corff ac yn cyfeirio ei waith at rwydwaith y prif swyddogion.

✔ Pwyllgor perfformiad & cyllid asiantaethau

Cefnogwyd y broses werthuso a dyrannu wrth adolygu a diwygio fframwaith ceisiadau a monitro perfformiad Llywodraeth y Cynulliad. Cyflogwyd adolygwr allanol i gynghori'r pwyllgor a helpu i ddatblygu proses adrodd gymwys. Rhoddwyd cymorth a chyfarwyddyd i Asiantaethau a'u partneriaid drwy gyfrwng cyflwyniadau a dogfennau i'w helpu i baratoi cynlluniau busnes mwy cryno a gosod amcanion mesuradwy.

✔ Cefnogi Conwy a Sir y Fflint

Yn ystod 2008/09 parhaodd yr adran gwasanaethau asiantaethau i reoli Gofal a Thrwsio Conwy yn ystod ei gyfnod 'adfer', pan lwyddwyd i wneud yr isod:

- 350 person hŷn wedi derbyn gwasanaeth ymweld â chartrefi o safon uchel
- Cyflawni nifer o atebion nad oedd modd eu gwneud wrth ddilyn llwybr strategol
- Datblygu grŵp rheoli cadarn
- £75,000 ar gyfer mân addasiadau, cytundeb tair blynedd gyda gwasanaethau cymdeithasol
- Ad-drefnu a gwella sgiliau'r gwasanaeth er mwyn canolbwyntio ar anghenion cwsmeriaid.

Yn ogystal helpodd i reoli Gofal a Thrwsio Sir y Fflint, ar gais ac mewn partneriaeth â Bwrdd yr Asiantaeth. Canolbwyntiodd ar drefniadau rheoli dros dro ar ôl colli'r prif swyddog ac ad-drefnu'r gwasanaeth, ynghyd â chryfhau ymwybyddiaeth o ofynion llywodraethu a phartneriaethau strategol.

Gwnaed yr isod yn ystod y flwyddyn:

- Adolygu a diwygio gweithdrefnau
- Gwella'r fframwaith rheoli achosion
- Datblygu tîm yn barod i anwesu newid

Llywodraethu

Llywodraethu: Bwrdd Rheoli - Cynnal y Weledigaeth - Datganiad gwerthoedd

Yn ystod 2008/09, adlewyrchodd penderfyniadau allweddol Bwrdd Care & Repair Cymru amcanion y busnes craidd o 'sicrhau bod pobl hyn yn cael cartrefi cynnes a diogel sy'n cyfarfod â'u hanghenion unigol'. Gyda hynny mewn golwg, ystyriodd safbwyntiau pobl hŷn, cydraddoldeb cymunedau a'r trydydd sector wrth gymryd penderfyniadau.

Er mwyn darparu fframwaith i gynnal gwelliant parhaus ym maes llywodraethu, bydd Bwrdd Care & Repair Cymru yn trafod nifer o ddatblygiadau:

- Adolygu lefelau sgiliau drwy fframwaith both llywodraethu'r sector gwirfoddol
- Edrych i wella setiau sgiliau wrth ddenu aelodau newydd
- Trefnu diwrnodau hyfforddi er mwyn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r Bwrdd
- Adolygu gweledigaeth Care & Repair Cymru, sef 'gwasanaethau tai ar gael i bob person hŷn er mwyn eu galluogi i fyw mewn cartrefi sy'n cwrdd â'u hanghenion personol'
- Cymeradwyo newidiadau angenrheidiol i'r strwythur corfforaethol er mwyn ymateb i ofynion corff sy'n aeddfedu
- Datblygu arfau adrodd mwy cadarn er mwyn asesu a rheoli risgiau
- Darparu strwythurau effeithiol i hwyluso archwiliadau mewnol.

Er mwyn cynnal dyheadau cenedlaethol, mae'r Bwrdd wedi diffinio amcanion cymwys ar gyfer corff modern, blaengar a pherthnasol:

- Siapio polisïau cenedlaethol yn ôl dyheadau pobl sy'n byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio, gan adlewyrchu diwylliant amrywiol Cymru
- Parhau i esblygu'r rôl o roi cyngor perfformiad a chyllid effeithiol i Lywodraeth y Cynulliad, gan seilio penderfyniadau buddsoddi ar gynaladwyedd ariannol, asesu risgiau busnes a datblygu mesurau perfformiad seiliedig ar ganlyniadau
- Hysbysu pobl hŷn, gwleidyddion a chomisiynwyr o wasanaethau Gofal a Thrwsio
- Cefnogi Asiantaethau a'u partneriaid wrth ddarparu adnoddau ymarferol, megis datblygu gwefan ryngweithiol, dogfennau electronig safon uchel a modelau arferion da
- Datblygu'r fframweithiau angenrheidiol mewn partneriaeth ag Asiantaethau lleol a'u rhanddeiliaid, ynghyd â'r sgiliau ac arfau i wella ansawdd, a darparu gwasanaethau cynaladwy wrth fynnu llywodraethu da.

> "Fel rhan o'm cyfrifoldebau rwyf wedi canolbwyntio ar asesu risgiau ac archwilio mewnol, gan fynychu cyfarfodydd Bwrdd er mwyn hysbysu'r aelodau o ddatblygiadau yn y meysydd hynny. Rwyf wedi dysgu llawer oherwydd mae'n rhaid rhoi gwybodaeth gywir i'r Bwrdd er mwyn ei alluogi i reoli risgiau'n effeithiol, sy'n hanfodol i gorff a gyllidir gydag arian cyhoeddus"
>
> **Heather Dungey, rheolwr swyddfa**

Cyfrifoldebau cyfredol y Bwrdd

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am holl waith Care & Repair Cymru yn y pen draw ac i'r perwyl hynny bydd yn ceisio gwella prosesau archwilio a phenderfyniadau gydol yr amser. O ganlyniad, cyflwynwyd mesurau i roi mwy o bwyslais ar asesu risgiau ac archwilio mewnol.

Mae aelodaeth o'r corff yn agored i gyrff ac unigolion gyda diddordeb perthnasol mewn gwasanaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru, yn benodol cyrff corfforaethol, partneriaeth a chyllid ac unigolion.

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae wedi sefydlu pedwar pwyllgor arall, Gweithredol, Perfformiad & Cyllid Asiantaethau, Personél & Tâl, ac Archwilio er mwyn diwallu'r prif amcanion a chyfrifoldebau. Cyfarfu'r pwyllgorau hyn er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau, ac eithrio'r pwyllgor archwilio, fydd yn cyfarfod yn 2009/10.

Er mwyn sicrhau llywodraethu da, cynhelir adolygiad blynyddol o wasanaethau Care & Repair Cymru, ynghyd ag adroddiad archwilwyr o fewn cyfrifon archwiliedig 2008/9.

Ar bob amser, bydd y Bwrdd yn diwallu cyfrifoldebau i Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid cenedlaethol eraill. Yn y cyd-destun hwnnw dyma rôl sylfaenol y Bwrdd:

- Gosod amcanion canol a hir dymor ar gyfer Care & Repair Cymru
- Monitro perfformiad yn unol â'r cynllun blynyddol
- Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a chymorth angenrheidiol i gyflawni uchelgeisiau corfforaethol
- Cynghori ar weithgareddau a gwasanaethau
- Rhoi cyngor effeithiol i Lywodraeth y Cynulliad ar benderfyniadau cyllid a lefelau perfformiad
- Cynnal cyfansoddiad sefydlog
- Sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith cyfreithiol y corff
- Gwneud penderfyniadau ar bolisïau a strategaethau
- Cynnal corff ariannol cynaladwy, drwy gyfrwng mesurau monitro a rheoli effeithiol
- Diogelu'r corff wrth reoli risgiau ariannol a busnes
- Sicrhau bod Care & Repair Cymru yn gyflogwr da ac yn gweithredu'n unol ag ethos a gwerthoedd y trydydd sector, yn cynnwys polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol Gofal a Thrwsio Conwy.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn adroddiadau risgiau rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y cynllun blynyddol. Yn ystod blwyddyn pan wynebwyd problemau yn nhermau nifer o staff allweddol yn gadael a chyfnodau trugarog a mamolaeth, gweithiodd y tîm rheoli'n galed i asesu risgiau a diogelu adnoddau er mwyn blaenoriaethu gwaith. Rhoddwyd pwyslais ar dargedau ansoddol yn hytrach na rhai meintiol. Nodir uchelbwyntiau'r gwaith yn Ffigur 1, tudalen 16.

Yn ystod y flwyddyn, aseswyd sgiliau'r Bwrdd drwy gyfrwng archwiliad i bennu cryfderau a gwendidau, gan eu pwyso er mwyn sefydlu'r proffil isod. Ar bob amser, bydd y Bwrdd yn ceisio ychwanegu sgiliau newydd at ei set sgiliau.

Llywodraethu parhad

50 AMCAN ALLWEDDOL



(Ffigur 1, tudalen 16)

YMATEB AELODAU'R BWRDD I'R ARCHWILIAD SGILIAU



Am wybodaeth bellach am y Bwrdd Rheoli neu aelodaeth Care & Repair Cymru, cysylltwch â Wendy Bourton, Ysgrifennydd y Cwmni.

Darperir sylwadau ar wahân ar ddatganiad ariannol a mesurau perfformiad Conwy ar gyfer 2008/09 mewn atodiad i'r Adroddiad hwn.

Perfformiad Yn Ôl Y Cynllun Blynyddol

Gwaith yn ôl uchelbwyntiau cynllun blynyddol 2008/9

NOD	LLWYDDIANT
Ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth gan Asiantaethau a'u partneriaid allweddol	✔ Newid sylfaenol
Archwilio perfformiad Asiantaethau yn erbyn targedau drwy gyfrwng prosesau perfformiad a chyllid blynyddol	✔ Gwella prosesau pwyllgor perfformiad & cyllid asiantaethau
Adolygu strwythur adroddiadau perfformiad Asiantaethau i Lywodraeth y Cynulliad a Bwrdd Care & Repair Cymru	✔ Grwpiau tasg a gorffen
Llunio a gweithredu strategaeth gyfathrebu, a'i hadolygu a diweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau amgylcheddol	✔ Strategaeth gyfathrebu
Adolygiad blynyddol a chynnal rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr ar gyfer staff Asiantaethau a phartneriaid allweddol	✔ Hyfforddiant Asiantaethau ✔ Grŵp cyfoedion
Datblygu systemau rheoli risgiau ac archwilio mewnol	✔ Llywodraethu
Datblygu ymhellach systemau ansawdd Care & Repair Cymru gyda phwyslais ar ddatblygiad proffesiynol a materion ariannol	✔ Llywodraethu ✔ Buddsoddwyr mewn Pobl
Adolygu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid ac ad-drefnu'r corff er gwella canlyniadau ar gyfer partneriaid allweddol	✔ Arolwg boddhad cwsmeriaid
Dosbarthu e-bwletin misol & cylchlythyr Gofal a Thrwsio	✔ Cyngor & cyfarwyddyd
Datblygu a rheoli gwefan Care & Repair Cymru fel arf gwybodaeth a chymorth	✔ Gwefan
Adolygu a gwella strwythur y gronfa ddata monitro a datblygu system gymorth i'w chyflwyno ar draws y mudiad	✔ Cronfa ddata/SUG ✔ Grŵp uwch ddefnyddwyr CARIS (SUG)
Parhau i wella gwasanaethau - gan fabwysiadu'r arferion gorau fel rhan o ddiwylliant y mudiad	✔ Canllaw Llywodraethu Da ✔ Canllaw Arferion Da

Pan wynebwyd oedi neu broblemau wrth geisio cyflawni amcanion, trefnodd y tîm rheoli fframwaith i flaenoriaethu llifoedd gwaith risg uchel a meysydd critigol.

Aelodau'r Bwrdd

AELODAU'R BWRDD

- Ms M Hands MBE - Cadeirydd
- Ms M Ing - Is-gadeirydd (tan Mai 2008)
- Mr D Jones - Is-gadeirydd
- Mr P Maggs - Trysorydd
- Mr D Lewis
- Mr C Jones
- Mr W George
- Mr D Breeze (tan Medi 2008)
- Mrs E Edwards
- Ms S Mainwaring
- Mr D Owen
- Mrs N Davies
- Mrs C Morgan
- Mr K Philbrick (bu farw Ebrill 2008)
- Ms M Wales (penodwyd Medi 2008)
- Mr D Scott (penodwyd Medi 2008)

AELODAU CYFETHOL

- Ms M Wales (tan Medi 2008)
- Ms A Palazon
- Mr S Inkson
- Ms C Thomas (penodwyd Medi 2008)
- Mr M Jones (penodwyd Medi 2008)

SYLWEDYDDION

- Mr J Childs (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Mr H McLean (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Mr K Williams (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru)
- Ms S Finch (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
- Mr M Jones (tan Medi 2008)
- Mr D Breeze (penodwyd Medi 2008)

PRIF WEITHREDWR AC YSGRIFENNYDD Y GYMDEITHAS

- Ms W Bourton OBE

ADRODDIAD ARIANNOL

Cyflwynir datganiadau ariannol statudol Care & Repair Cymru mewn fformat cryno, ynghyd ag adroddiad yr archwilwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009.

Yn fras, mae Care & Repair Cymru wedi dangos gwarged am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2009 a bydd yn gwario rhan helaeth ohono yn 2009-2010 ar gostau ymgynghorwyr fydd yn adolygu prif feysydd polisi mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

CARE & REPAIR CYMRU – CYFRIFON CRYNO

Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009

Cymrwyd y ffigurau dilynol o ddatganiadau ariannol archwiliedig llawn Care & Repair Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli.

Efallai na fydd y cyfrifon cryno hyn yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol y Gymdeithas. Am wybodaeth bellach cyfeiriwch at y cyfrifon llawn, adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau ariannol hynny ac adroddiad y Bwrdd. Copïau gan Care & Repair Cymru, Heol Norbury, Caerdydd CF5 3AS

Cyfrifon Cryno Care & Repair Cymru

	2009	2008
Asedau sefydlog yn cynnwys cyfrifiaduron, dodrefn ac offer swyddfa	**137,115**	56,322
Dyledwyr, sef dyledion taladwy i'r Gymdeithas	**21,643**	16,752
Arian yn y banc ac mewn llaw	**381,384**	272,744
	540,142	345,818
Llai: dyledion taladwy gan y Gymdeithas	**(396,060)**	(277,267)
Llai eiddo'r Gymdeithas	£144,082	**£68,551**
Sut crëwyd hynny:		
Cyfalaf cyfran	**61**	57
Cronfa ymgynghorwyr	**30,000**	-
Cyfrif incwm a gwariant	**114,021**	68,494
	£144,082	£68,551

Mae cronfeydd Care & Repair Cymru yn cynnwys £30,000 ar gyfer costau ymgynghorwyr fydd yn adolygu prif feysydd polisi mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

	2009	2008
Incwm o weithgareddau'r Gymdeithas:		
Grant craidd, cyllid projectau ac incwm arall	**812,862**	779,912
Llog derbyniwyd ac incwm gweithredu arall	**7,474**	8,504
	820,336	788,416
Llai: gwariant		
Costau uniongyrchol projectau	**(45,337)**	(99,258)
Treuliau gweithredu	**(699,472)**	(735,178)
Gwarged gweithredu (diffyg):	**£75,527**	£(46,020)
Cronfeydd cariwyd ymlaen gan Care & Repair Cymru:		
Gweithgareddau parhaol Care & Repair Cymru	**75,527**	(46,020)
Cronfeydd agoriadol	**68,494**	114,514
Cyfanswm cronfeydd cariwyd ymlaen gan Care & Repair Cymru	**£144,021**	**£68,494**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Rheoli a llofnodwyd ar ei ran gan Mrs M Hands MBE (Cadeirydd) a Mr P Maggs (Trysorydd).

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU CARE & REPAIR CYMRU

Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Care & Repair Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009 sy'n cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, mantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifeg a nodir ynddynt.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r gymdeithas, fel corff, yn unig yn unol â Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 - 2002. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn datgan i aelodau'r gymdeithas ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni wneud mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau a ganiateir o dan y gyfraith, ni fyddwn yn derbyn nac yn honni cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio aelodau'r gymdeithas fel corff am ein gwaith archwilio, yr adroddiad neu'r barnau a ffurfiwyd gennym.

CYFRIFOLDEBAU PERTHNASOL Y BWRDD RHEOLI A'R ARCHWILWYR

Nodir cyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r deddfau cymwys a Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice) yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd Rheoli.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Byddwn yn adrodd i chi ein barn os yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ac wedi'u paratoi'n unol â Deddfau Cwmnïau 1985 - 2002. Yn ogystal, byddwn yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, nad yw'r wybodaeth yn Adroddiad y Bwrdd Rheoli yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Yn ogystal, byddwn yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, na fydd y gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifeg addas, os na fyddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth benodol o dan y gyfraith mewn cysylltiad â thaliadau i'r Bwrdd Rheoli a thrafodion eraill.

Byddwn yn darllen adroddiad y Bwrdd ac yn ystyried yr oblygiadau i'n hadroddiad os yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol ynddo.

SAIL EIN BARN

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a ddosberthir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys craffu, ar sail prawf, tystiolaeth berthnasol i'r symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a barnau sylweddol a wnaed gan y Bwrdd Rheoli wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac os yw'r polisïau cyfrifeg yn addas ar gyfer amgylchiadau'r gymdeithas, wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a pherfformiwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriwyd yn angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed wedi'u hachosi gan dwyll neu afreoleidd-dra arall neu wall. Wrth ffurfio ein barn fe wnaethom hefyd werthuso addasrwydd cyffredinol y dull o gyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

BARN

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg, yn unol ag arferion cyfrifeg cyffredinol y Deyrnas Unedig, o faterion y gymdeithas ar 31 Mawrth 2009 ac o'i diffyg am y cyfnod yn diweddu bryd hynny
- paratowyd yn unol â Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 - 2002
- mae'r wybodaeth yn Adroddiad y Bwrdd Rheoli'n gyson â'r datganiadau ariannol.

HWCA LIMITED
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Pagefield House
24 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG